# Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

## Protocol Marwolaeth Annisgwyl

## Oedolyn mewn Perygl

| Fersiwn | Adolygiad | Dyddiad |
|---|---|---|
| Fersiwn drafft 1 | Ar gyfer ymgynghoriad | 05/10/2023 |
| Fersiwn 1 | Dyddiad Cadarnhau | 13/02/2023 |
| | | |

## 1.0 Cyflwyniad:

Gall amgylchiadau ble mae Oedolyn mewn Perygl wedi marw'n annisgwyl, pan fo amheuaeth neu y gwyddys fod cam-drin neu esgeulustod yn rhan ohono, yn gallu bod yn heriol ac yn gymhleth i'w drin gydag asiantaethau partner â gwahanol swyddogaethau a chyfrifoldebau mewn ymateb i'r farwolaeth.

Mae'r protocol marwolaeth oedolyn yn darparu fframwaith i sefydlu safon gytunedig rhwng partneriaid i:

- Sicrhau ymateb aml-asiantaeth effeithiol a chyson a fydd yn cefnogi asiantaethau BDOGC i fodloni gofynion deddfwriaeth, canllawiau cenedlaethol a lleol a safonau ymarfer o ran ymatebion priodol i farwolaethau annisgwyl oedolion sy'n cynnwys camdriniaeth ac esgeulustod.
- Sicrhau eglurder a chysondeb gweithdrefnau ar draws sefydliadau'r BDOGC
- Datblygu trefniadau sy'n cefnogi effeithlonrwydd wrth weithio mewn partneriaeth i adnabod troseddau posib neu pan fo angen cynnal ymchwiliadau i farwolaethau annisgwyl oedolion.

Datblygwyd y protocol hwn gyda'r nod o sefydlu ymateb aml-asiantaeth sydyn, cydlynedig, ac i sicrhau eglurder a chysondeb ar draws asiantaethau. Ei nod yw hyrwyddo rhannu gwybodaeth yn effeithiol a fydd yn arwain at well canlyniadau wrth ymchwilio i farwolaethau annisgwyl oedolion sy'n cynnwys camdriniaeth neu esgeulustod.

## 2.0 Marwolaeth annisgwyl oedolyn mewn perygl:

Ar gyfer y protocol hwn y diffiniad a ddefnyddir yw oedolyn mewn perygl fel nodir yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru 2019 sy'n gosod y dyletswyddau a chyfrifoldebau cyfreithiol mewn perthynas â diogelu oedolion. Mae Adran 126(1) Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn diffinio "oedolyn mewn perygl" fel oedolyn sy'n:

a) wynebu neu mewn perygl o, gamdriniaeth neu esgeulustod;

b) sydd angen gofal a chymorth (p'un a yw'r awdurdod yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio);

a c) o ganlyniad i'r anghenion hynny, yn methu amddiffyn ei hun yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r risg ohono

Mae'r protocol marwolaeth oedolion yn berthnasol i'r meini prawf canlynol:

- mae oedolyn yn marw mewn amgylchiadau annisgwyl neu annaturiol, a
- mae amheuaeth, neu mae'n hysbys, fod camdriniaeth neu esgeulustod yn ffactor a gyfrannodd at eu marwolaeth, a
- achoswyd y gamdriniaeth neu'r esgeulustod gan drydydd parti.

Gan fod y protocol ond yn berthnasol mewn perthynas â'r meini prawf hyn, nid yw'n berthnasol i bobl sy'n marw oherwydd cyswllt â chyffuriau, hunan-esgeulustod neu hunanladdiad.

Hefyd, ni fydd yn berthnasol mewn unrhyw sefyllfa sy'n gysylltiedig ag amheuaeth o ddynladdiad, pan fo'r ymchwiliad i'r dynladdiad a'r broses Adolygu Dynladdiadau Domestig yn cael blaenoriaeth. Os yw'r farwolaeth o ganlyniad i gamddefnyddio cyffuriau neu alcohol, hunan-esgeulustod neu hunanladdiad ac mae trydydd parti wedi gweinyddu / darparu'r sylweddau anghyfreithlon, bydd ymchwiliad yr heddlu wedi dechrau ac efallai bydd angen ystyried y protocol hwn gyda'r broses AAR. Nid yw'r protocol yn disodli unrhyw bolisïau a gweithdrefnau mewnol asiantaethau partner. Dylai staff hefyd gyfeirio at bolisïau a chanllawiau perthnasol eu sefydliad eu hunain ar y cyd â'r ddogfen hon.

## 3.0 Swyddogaethau:

### 3.1 Heddlu Gogledd Cymru

**Polisi Marwolaeth Sydyn, Annisgwyl neu Amheus (adolygiad 050, 30/1/25)**

| | |
|---|---|
| **1.1 Staff Cyngor Sir y Fflint** | • Cymryd yr alwad gychwynnol.<br>• Creu cofnod digwyddiad.<br>• Cofnodi Trosedd:<br>○ Dylai holl farwolaethau annisgwyl gael eu cofnodi ar systemau cofnodi troseddau'r llu yn unol â safonau cofnodi Troseddau'r Swyddfa Gartref.<br>○ Dylai marwolaeth annisgwyl ond gael ei chofnodi fel trosedd (trosedd hysbysadwy) os yw'n amlwg yn syth:<br>a) fod amgylchiadau'r digwyddiad yn gyfystyr â throsedd fel mae'r gyfraith yn ei ddiffinio; a<br>b) nid oes unrhyw dystiolaeth gredadwy i'r gwrthwyneb ar gael yn syth.<br><br>Ar ôl cynnal asesiad cychwynnol o amgylchiadau marwolaeth, rhaid dyrannu lefel priodol o adnoddau i ymateb. Mae 4 categori ar gyfer ymchwiliadau i farwolaeth: |

| | |
|---|---|
| | ○ **Marwolaeth ddisgwyliedig -** Er enghraifft, pan fo diagnosis meddygol, ac mae ymarferydd meddygol yn gallu llofnodi tystysgrif feddygol o achos marwolaeth.<br>○ **Marwolaeth annisgwyl - o dan ymchwiliad** Pan na ddisgwylir y farwolaeth, ac nid yw ymchwiliad yr heddlu wedi gallu profi neu wrthbrofi nad oedd unrhyw ymwneud trydydd parti ac mae angen ymchwiliad pellach. Hunanladdiad cam-drin domestig ac ystyriaeth o Adolygiadau Dynladdiad Domestig?<br>○ **Marwolaeth annisgwyl - wedi ei ymchwilio ac nid yn amheus** Pan roedd y farwolaeth yn annisgwyl, ac mae ymchwiliad yr heddlu wedi cael tystiolaeth i ddangos nad oedd unrhyw ymwneud gan drydydd parti.<br>○ **Dynladdiad** - Pan fo'r farwolaeth yn annisgwyl ac mae ymchwiliad yr heddlu wedi sefydlu ym mhob tebygolrwydd fod ymwneud gan drydydd parti, neu dystiolaeth amlwg o ddynladdiad |
| **1.2 Swyddog Ymateb** | • Mynd i'r digwyddiad a sefydlu'r amgylchiadau llawn.<br>• Gwneud asesiad gwybodus o'r sefyllfa. Y farwolaeth i'w thrin fel un amheus oni bai neu tan fod ymchwiliadau'n datgelu fel arall<br>• Diogelu a chadw tystiolaeth.<br>• Uwchgyfeirio ble fo angen. |
| **1.3 Goruchwyliwr Ymateb** | • Sicrhau goruchwyliaeth o'r presenoldeb.<br>• Asesu'r wybodaeth sydd ar gael ac a ddarperir.<br>• Gwneud penderfyniad ar sail gwybodaeth ar uwchgyfeirio at CID.<br>• Mewn amgylchiadau a ddiffiniwyd, gall goruchwylwyr gadarnhau marwolaeth (yn unol â 5.4.2 Diogelu bywyd) |
| **1.4 CID/Uned Diogelu Unigolion Diamddiffyn** | • Mynychu'r lleoliad pan fo angen gan y goruchwyliwr ymateb.<br>• Asesu'r wybodaeth sydd ar gael a chadarnhau os ystyrir bod y farwolaeth yn un amheus.<br>• Uwchgyfeirio i'r Ditectif Arolygydd a / neu'r Uwch Swyddog Ymchwilio ble fo'n berthnasol.<br>• **Ystyried a yw'r protocol hwn yn berthnasol, a chysylltu â'r tîm Diogelu Gofal Cymdeithasol Lleol a'r Uned Diogelu Unigolion Diamddiffyn i weithredu'r protocol hwn.** |
| **1.5 Ditectif Arolygydd** | • Cymryd rheolaeth gychwynnol o farwolaeth y mae'r polisi hwn yn berthnasol iddi.<br><br>**Mae Ditectif Arolygydd yr Uned Diogelu Unigolion Diamddiffyn yn gweithio gyda phartneriaid i sicrhau y cwblheir y protocol AUDR.** |

| | |
|---|---|
| **1.6 Uwch Swyddog Ymchwilio (USY)** | • Gweithredu fel Uwch Swyddog Ymchwilio pan fo'n briodol gwneud hynny o ystyried amgylchiadau'r achos unigol. Bydd yr USY yn cyfeirio at Lawlyfr Ymchwilio i Drosedd Fawr Tachwedd 2021 |
| **1.7 Swyddog y Crwner** | • Cyflawni dyletswyddau yn ôl cyfarwyddyd gan Grwner ei Fawrhydi. |
| **1.8 Cofrestryd d Trosedd y Llu** | • Cyfrifoldeb am yr holl gofnodion nad ydynt yn golygu cofnodi trosedd a gadarnhawyd a sicrhau y nodir y cod categori priodol. |

## 3.2 WAST:

- Dilyn Canllawiau Ymarfer Clinigol JRCALC wrth reoli terfynu dadebru a gwirio marwolaeth mewn oedolion.

- Hysbysu'r Ganolfan Gyswllt Glinigol i ofyn i'r Heddlu i fynd i'r digwyddiad yn unol â'r broses marwolaeth annisgwyl.

- Cwblhau Cofnod Clinigol Claf WAST (ePCR) a dogfen Cydnabod bod Bywyd wedi dod i Ben, gan gynnwys amgylchiadau'r digwyddiad, yr hyn a welwyd yn y lleoliad, sgyrsiau a phenderfyniadau.

- Unrhyw bryderon diogelu a godwyd i'w hadrodd trwy broses Ddiogelu WAST.

- Tîm Diogelu WAST i fod yn brif bwynt cyswllt ar gyfer ymgysylltu â Phrotocol Marwolaeth Annisgwyl Oedolyn BDOGC.

## 3.3 Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr:

- Hysbysu ystafell Reoli Heddlu Gogledd Cymru_, o dan y protocol hwn a hysbysu Ditectif Arolygydd ARDAL / Uned Diogelu Unigolion Diamddiffyn.
- Adnabod gwasanaethau sy'n gysylltiedig â'r unigolyn.
- Canfod cofnodion ar gyfer yr unigolyn.
- Gwasanaeth sy'n ymwneud i gofnodi'r digwyddiad trwy'r system Datix.
- Gwasanaeth sy'n ymwneud i gwblhau'r broses Gwneud hi'n Ddiogel a rhannu dysgu uniongyrchol o fewn BIPBC.
- Dewis cynrychiolydd priodol o'r gwasanaeth i gymryd rhan yn y PROTOCOL MARWOLAETH OEDOLYN BDOGC.
- Atgyfeiriad TRiM a chefnogaeth iechyd galwedigaethol i'w gynnig yn ogystal â chefnogaeth fugeiliol unigolion sy'n ymwneud.

*SYLWER: Mae protocol arall os oes marwolaeth yn yr ysbyty. Grŵp Cydlynu Digwyddiad Heddlu Gogledd Cymru. Pwrpas y grŵp cydlynu digwyddiad yw rhoi trosolwg strategol o ddigwyddiad diogelwch claf sy'n cynnwys y GIG a'r heddlu,*

*CQC a/neu Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Mae'n fforwm i gyfathrebu, cyfnewid gwybodaeth a chydlynu nifer o ymchwiliadau.*

*Mae'n caniatáu i'r tri sefydliad osod eu hanghenion er mwyn cytuno ar gamau gweithredu nad ydynt yn rhagfarnu gwaith bob sefydliad e.e. camau cyfreithiol, neu gamau, graddau ac amseru ymchwiliadau pellach gan y GIG. Dylai fod y modd mae'r swyddog ymchwilio yn ymgysylltu â'r GIG a sefydliadau eraill mewn ymchwiliad posib mewn gofal iechyd" [Canllaw USY i Ymchwilio i Farwolaeth Annisgwyl a Niwed Difrifol mewn Lleoliadau Gofal Iechyd - Diwygiwyd 2015].*

*https://library.college.police.uk/docs/NPCC/2015-SIO-Guide-Investigating-Deaths-and-Serious-Harm-in-Healthcare-Settings-v10-6.pdf*

## 3.4 Awdurdod Lleol: - *(Adnabod Swyddogaeth y Cydlynydd Arweiniol)*

Bydd y Rheolwr Arweiniol Diogelu yn yr Awdurdod Lleol yn cael eu hysbysu gan yr Heddlu am unrhyw farwolaeth annisgwyl yn eu hardal Awdurdod Lleol.

Bydd y Rheolwr Arweiniol Diogelu ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion: -

- Yn adolygu'r angen i gofnodion achosion personol gael eu cloi os oes angen
- Yn adnabod a dirprwyo Cydlynydd Arweiniol i'r achos
- Yn hysbysu'r Pennaeth Gwasanaeth ynglŷn â'r farwolaeth
- Bydd y Cydlynydd Arweiniol yn trafod gydag asiantaethau eraill ac arwain cydlynu casglu gwybodaeth o fewn gofal cymdeithasol i'w rhannu trwy gydol proses y protocol.
- Yn sicrhau cyswllt llawn gyda'r Heddlu os oes marwolaeth amheus. (Pan fydd Uwch Swyddog Ymchwilio'r Heddlu yn penderfynu pa wybodaeth a ddatgelir i'r teulu/gofalwyr a sut.)
- Sicrhau fod y perygl i eraill yn cael ei asesu fel blaenoriaeth ar ôl clywed am farwolaeth annisgwyl oedolyn mewn perygl.
- Sicrhau bod Uned Busnes Bwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol yn cael eu hysbysu ynglŷn â'r farwolaeth.
- Sicrhau bod cynrychiolaeth briodol o Ofal Cymdeithasol i Oedolion yn bresennol ym mhob cyfarfod o dan y protocol.
- Sicrhau fod unrhyw ymchwiliad neu gamau gweithredu diogelu ar gyfer Gofal Cymdeithasol i Oedolion a allai godi yn ystod proses y protocol yn cael eu cwblhau.

- Darparu gwybodaeth, cyngor a chefnogaeth i unrhyw weithiwr proffesiynol gofal cymdeithasol sy'n anghyfarwydd â'r protocol.

## 3.5 Darparwr Gofal:

***(****Cymerwyd o Farwolaeth Sydyn: Proses Cam wrth Gam (Haulfryn Care) - gweler atodiadau****)***

- Bydd y Rheolwr Cofrestredig ym mhob lleoliad darparwr neu asiantaeth yn swyddog arweiniol mewn achosion o farwolaeth annisgwyl.

- Bydd y rheolwr yn sicrhau fod uwch staff yn dilyn y canllaw cam wrth gam a nodir isod mewn achos o farwolaeth annisgwyl.

- Byddai parafeddygon sy'n delio â marwolaeth annisgwyl oedolyn yn hysbysu Canolfan Gyswllt Glinigol WAST i ofyn i'r heddlu fod yn bresennol. Nid yw hyn yn rhywbeth i boeni amdano, bydd angen i'r heddlu ddeall y diwrnodau neu'r oriau diwethaf, ac os yw eich darparwr angen cyngor neu gefnogaeth dylent gysylltu â'u rheolwr perthnasol.

- Pan fydd yr heddlu'n cyrraedd, byddant yn cyfeirio'r darparwr ar beth ddylai ddigwydd a phryd. Dylai'r darparwr gefnogi'r heddlu i gasglu unrhyw wybodaeth.

Ni ddylid taflu unrhyw feddyginiaeth. Bydd angen i'r meddyg teulu, parafeddygon neu'r heddlu weld y siart MAR, cael trosolwg o'r diwrnodau diwethaf a gallant ofyn am ddiet. Efallai y gofynnir i'r darparwr lofnodi'r datganiad a baratowyd, a dylent sicrhau fod yr holl fanylion yn gywir. Mae llofnodi datganiad yn ymarfer safonol er mwyn cadarnhau'r wybodaeth a gasglwyd. Yna dylai'r darparwr ysgrifennu eu datganiad eu hunain a gadael hwn ar gyfer y rheolwyr. Dylai adlewyrchu'r manylion a roddwyd i'r heddlu. Pan roddir copïau dyblyg o gynllunio gofal etc. i'r heddlu, sicrhewch fod copi ar gael i'r rheolwyr hefyd.

- Bydd swyddog yr heddlu'n trefnu i'r corff gael ei gasglu gan yr ymgymerwr.

- Sicrhewch fod dyddiad ac amser y farwolaeth yn cael ei gofnodi ar gynllun personol a llyfr trosglwyddo.

- Sicrhewch fod yr ystafell yn lân ac yn daclus, bydd staff domestig yn glanhau'n drylwyr y diwrnod canlynol, oni bai fod angen gwneud hyn yn gynt.

- Bydd rheolwyr yn trefnu i gwblhau eu hysbysiadau ar y diwrnod gwaith nesaf.

- Bydd 'Archwiliad ôl farwolaeth' yn cael ei gwblhau ar y diwrnod gwaith nesaf.

Os oes angen cyngor gan reolwyr ar unrhyw adeg, cofiwch gysylltu unrhyw bryd.

## 4.0 Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth:

Mae llinell amser protocol Marwolaeth Annisgwyl Oedolyn yn cynnwys tri cham posib:

**Cam un (fel arfer 0-5 diwrnod):** Rheoli rhannu gwybodaeth, gan gynnwys Cyfarfod Rheoli Gwybodaeth a Chynllunio, o'r pwynt pan fo unrhyw asiantaeth yn dod yn ymwybodol o farwolaeth yr oedolyn nes bod yr archwiliad port-mortem cychwynnol wedi ei gwblhau.

Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio:

*(templed Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio Cychwynnol - Atodiad 1)*

*Bydd y cyfarfod yn cael ei gadeirio gan Heddlu Gogledd Cymru a darperir cefnogaeth i gymryd cofnodion gan dîm diogelu'r awdurdod lleol.*

Pwrpas y Cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio yw:

- Sicrhau y rhennir gwybodaeth ac asesir y risg yn sydyn (gan gynnwys y risg i eraill).
- Cadarnhau pwy fydd yr asiantaeth arweiniol.
- Ystyried unrhyw asiantaethau eraill sy'n ymwneud a gofyn am wybodaeth ganddynt.
- Ystyried unrhyw ymholiad perthnasol arall neu broses ymchwilio ac yr amseru, gan gynnwys ymchwiliadau pellach gan yr heddlu, ymholiad diogelu Adran 26, Adolygiad Digwyddiad Difrifol, Adolygiad Diogelu Oedolion.
- Ystyriaethau o ran aelodau o'r teulu a gofalwyr, gan gynnwys barn eraill a sut y bydd teulu neu ofalwyr yn cael gwybodaeth.
- Datblygu cynllun gweithredu aml-asiantaeth gydag amserlen a gytunwyd a manylion pwy sy'n arwain ar bob cam.
- Ystyried camau gweithredu o ran strategaeth gyfryngau.
- Cadarnhau strategaeth gyfathrebu ar draws uwch gynrychiolwyr asiantaeth.
- Penderfynu pa weithiwr proffesiynol yw'r unigolyn mwyaf priodol i fod yn un pwynt cyswllt i gefnogi'r teulu.
- Sicrhau y rhoddir cefnogaeth briodol i'r teulu.
- I bob asiantaeth rannu gwybodaeth o ymwneud blaenorol â'r oedolion a chofnodion, gyda chyfeiriad arbennig at yr amgylchedd ac amgylchiadau'r farwolaeth. Byddai hyn yn cynnwys manylion pryderon diogelu blaenorol neu

barhaus, hanes o anaf blaenorol heb eglurhad, camdriniaeth neu esgeulustod, marwolaethau blaenorol anarferol neu heb eu hegluro yn y teulu, cyflyrau meddygol gan gynnwys unrhyw anabledd, camddefnyddio sylweddau, salwch meddwl, cam-drin domestig, euogfarnau troseddol, cyfnodau yn yr ysbyty ac ymweliadau â meddygon teulu.

- Casglu'r holl wybodaeth berthnasol i'w rhannu gyda Chrwner ei Fawrhydi a'r Patholegydd cyn yr archwiliad post-mortem.

- Cynllunio a phennu proses yr ymchwiliad.

- Galluogi ystyriaeth o unrhyw risgiau diogelu i unrhyw un arall, ac i ystyried yr angen ar gyfer gweithdrefnau diogelu.

- Ystyried yr angen i atgyfeirio at Fwrdd Diogelu Oedolion Rhanbarthol ar gyfer ystyried Adolygiad Ymarfer Oedolion.

- Sicrhau y rhoddir cefnogaeth briodol i'r holl weithwyr proffesiynol oedd yn ymwneud â'r oedolyn.

- Ystyried a chynllunio ar gyfer unrhyw ddiddordeb yn y farwolaeth gan y cyfryngau.

- Cytuno pwy fydd yn gyfrifol am unrhyw gamau gweithredu a gytunwyd ac erbyn pryd.

- Gwneud trefniadau i alw Cyfarfod Trafod Achos o fewn 5 i 28 diwrnod os oes angen.

Yn dibynnu ar y wybodaeth a geir, bydd symud i Gam 2 a/neu 3 yn annhebygol, ond os oes angen rhaid symud o fewn amserlen a chamau gweithredu a gytunir.

**Cam dau (5-28 diwrnod):**Rheoli rhannu gwybodaeth, gan gynnwys Cyfarfod Trafod Achos, pan fydd canlyniadau cychwynnol yr archwiliad post-mortem ar gael.

**Cam tri (o fewn 12 mis):** Rheoli rhannu gwybodaeth, gan gynnwys y Cyfarfod Adolygu Achos, pan fydd yr Adroddiad Post-Mortem terfynol ar gael.

Mewn egwyddor cydnabyddir y dylai'r holl wybodaeth sy'n berthnasol i'r ymholiad gael ei rhannu gan yr holl asiantaethau. Fodd bynnag, gallai'r Heddlu a Chrwner ei Fawrhydi ystyried rhywfaint o wybodaeth Sub Judice (h.y. o dan ystyriaeth farnwrol ac felly gwaherddir rhag trafodaeth gyhoeddus yn rhywle arall) neu'n amodol ar ymchwiliad parhaus a allai ei atal rhag cael ei rannu. Mewn rhai amgylchiadau gallai hyn gynnwys canlyniadau cychwynnol a therfynol yr archwiliad post-mortem.

Yn yr achosion hyn, rhaid i'r wybodaeth a ryddhawyd o ymchwiliad yr Heddlu i'r cyfarfodydd hyn fod yn ddigonol i gynghori ar y materion perthnasol. Yn arbennig, rhaid i wybodaeth a rennir ystyried lles oedolion eraill sydd mewn perygl. Bydd

unrhyw benderfyniad i beidio â rhannu gwybodaeth yn cael ei gofnodi gan yr Uwch Swyddog Ymchwilio yn Llyfr Polisi'r Heddlu.

Mae'r Awdurdod Lleol yn gyfrifol am sicrhau fod cofnodion cywir o bob cyfarfod yn cael eu cymryd, cofnodir holl benderfyniadau a bod y cofnodion yn cael eu dosbarthu i'r holl wahoddedigion o fewn 5 diwrnod gwaith o'r cyfarfod. Nid yw'n arferiad rhannu cofnodion cyfarfodydd. Bydd y penderfyniad i rannu'r cofnodion ar ddisgresiwn y rhai sy'n bresennol yn y cyfarfod Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio a fydd yn gallu ystyried unrhyw gyfyngiadau angenrheidiol, o ystyried amgylchiadau'r achos a graddau unrhyw ymchwiliadau troseddol neu grwner, a allai gael eu rhagfarnu trwy ddatgelu yr adeg honno.

## 5.0 Post-mortem a'r Crwner:

Tîm Swyddfa Crwner Gogledd Cymru sy'n gweithio i'r Crwner - cadarnhau os gellir rhoi achos marwolaeth ac i alluogi'r NOK i gofrestru'r farwolaeth. Os na ganfuwyd achos y farwolaeth gall y Crwner benderfynu fod angen Post-Mortem.

Ble fo angen, gall archwiliad post-mortem gael ei gynnal o dan gyfarwyddyd y Crwner. Mae dau fath o post-mortem, post-mortem safonol, a ddylai ddigwydd pan nad oes unrhyw amgylchiadau amheus, a post-mortem Swyddfa Gartref pan fo pryderon neu amgylchiadau amheus o ran y farwolaeth. Mae hwn i'w gynnal gan batholegydd a hyfforddwyd yn fforensig.

Bydd post-mortem Swyddfa Gartref ond yn cael ei gynnal gydag awdurdod y Crwner mewn ymgynghoriad â'r Uwch Swyddog Ymchwilio. Bydd swyddogion y Crwner yn hwyluso hysbysu'r NOK ynglŷn â hyn a'r canlyniadau. Mae'r Crwner yn gweld yr holl achosion trwy Swyddfa'r Crwner a'r System CIVICA.

## 6.0 Cefnogi:

### 6.1 Teuluoedd

Pan fo oedolyn wedi marw'n annisgwyl ac mewn amgylchiadau amheus, mae cyfathrebu effeithiol a phriodol gyda theuluoedd yn hollbwysig a dylid ei wneud mewn modd parchus a sensitif.

Yn y mwyafrif llethol o achosion pan fo rhywun yn marw'n annisgwyl, nid oes unrhyw beth anghyfreithlon wedi digwydd. Rhaid hefyd cydnabod, fodd bynnag, mewn canran fechan o sefyllfaoedd efallai bod rhywbeth anghyfreithlon wedi digwydd. Ni ddylid anghofio hyn. Mae diogelu oedolion yn gyfrifoldeb ar bawb. Mae darparu cefnogaeth a gofal i deulu sydd wedi cael profedigaeth cyn gynted â phosib yn rhan graidd o'r ymateb cyd-asiantaeth ac yn rhan o bob cam o'r ymateb.

Mae'n debygol y bydd teulu'r ymadawedig mewn gofid ac wedi eu brawychu. Dylid ystyried dymuniadau a chredoau'r teulu bob amser, a sut y gellir cefnogi'r rhain o fewn unrhyw ofynion statudol. Mae gan bob teulu yw hawl i gael ymchwiliad trylwyr o farwolaeth un o'u hanwyliaid. Mae teuluoedd daer eisiau gwybod beth ddigwyddodd, sut allai fod wedi digwydd, beth oedd achos y farwolaeth ac a oedd modd ei hatal.

Yn y camau cychwynnol yn dilyn canfod marwolaeth annisgwyl oedolyn, bydd yr heddlu a swyddog y crwner yn brif bwynt cyswllt ar gyfer aelodau o'r teulu.

Yn y Cyfarfod Cyd-Asiantaeth Cychwynnol, bydd cyfrifoldeb o ran pa asiantaeth arweiniol ddylai ddarparu gwybodaeth barhaus a chydlynu gofal a chefnogaeth briodol i'r teulu yn cael ei gadarnhau. Mae'r ystyriaethau allweddol yn cynnwys:

- Mae'n bwysig egluro'r broses a beth sy'n digwydd wrth aelodau'r teulu, a darparu cyfleusterau i gysylltu â ffrindiau, ac aelodau eraill o'r teulu a chefnogaeth ddiwylliannol neu grefyddol.

- Dylai gweithwyr proffesiynol ddangos empathi gyda'r teulu a defnyddio enw a rhywedd cywir yr ymadawedig gyda pharch ym mhob sgwrs. Gall rhannu ein dynoliaeth wneud gwir wahaniaeth i deuluoedd. Mae cymryd agwedd sy'n ystyriol o drawma o ran cefnogi teuluoedd, yn allweddol i reoli lles ac atal creu trawma.

- Dylid ystyried gallu'r teulu i gymryd rhan yn y prosesau sy'n digwydd o'u hamgylch. Dylid ystyried cefnogaeth gan wasanaethau eiriolaeth ble fo'n briodol. Dylid rhoi ystyriaeth arbennig i faterion iaith, iechyd neu allu meddyliol. Rhaid hefyd rhoi ystyriaeth bellach i ffydd a diwylliant yr ymadawedig a'u teulu.

- Pan nad yw Saesneg yn iaith gyntaf y teulu, dylid gwneud bob ymdrech i roi gwasanaeth cyfieithu, gan gynnwys darpariaeth tu allan i oriau swyddfa, er enghraifft trwy'r Llinell Iaith. Ni ddylai aelodau o'r teulu, yn enwedig plant, weithredu fel cyfieithwyr.

- Mae cyfrifoldeb am ddarparu gwybodaeth barhaus a chydlynu gofal a chefnogaeth briodol i'r teulu yn cael ei rannu rhwng y gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol arweiniol, ymchwilydd yr heddlu a swyddfa'r crwner. Mae angen trafodaeth glir rhwng y gweithwyr proffesiynol hyn o ran pwy fydd yn cymryd cyfrifoldeb am bob agwedd ar ofal a chefnogaeth.

- Dylid dweud wrth y teulu yn gynnar, oherwydd bod marwolaeth eu hanwylyd yn annisgwyl, y bydd angen hysbysu'r crwner a bydd angen ymchwiliad gan yr heddlu. Rhaid egluro hyn wrth y teulu mewn modd sensitif, gan bwysleisio fod y rhain yn weithdrefnau arferol a ddilynir ar gyfer marwolaeth annisgwyl oedolyn.

- Dylid egluro pwrpas a phroses yr ymateb cyd-asiantaeth wrth y teulu, gan bwysleisio fod yr holl weithwyr proffesiynol yn cydweithio i geisio eu helpu i

ddeall pam fod eu hanwylyd wedi marw ac i'w cefnogi. Dylid hysbysu'r teulu y bydd gwybodaeth yn cael ei rhannu gyda'u tîm gofal sylfaenol, y gwasanaethau cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol perthnasol eraill fel rhan o'r broses hon.

- Dylid hysbysu'r teulu fod y crwner yn debygol o ofyn am archwiliad post-mortem. Dylid hysbysu'r teulu am yr archwiliad post-mortem, gan gynnwys y lleoliad a'r amser tebygol, unrhyw drefniadau ar gyfer symud ei hanwylyd, a'r tebygolrwydd y bydd meinweoedd yn cael eu cadw yn ystod yr archwiliad post-mortem. Dylid darparu'r wybodaeth hon mewn modd sensitif ac ystyrlon.

- Fel rhan o'r eglurhad am yr archwiliad post-mortem a roddir i'r teulu, dylai'r gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol arweiniol neu swyddog y crwner egluro y bydd samplau meinweoedd yn cael eu cymryd, ac y gall y teulu benderfynu beth i'w wneud gyda'r meinwe yn dilyn archwiliad y crwner, yn ôl Deddf Meinwe Dynol 2004.

- Dylid hysbysu'r teulu y gall gymryd sawl wythnos i gael canlyniadau'r archwiliad post-mortem ac i'r crwner ddod i gasgliad. Dylid gwneud pob ymdrech i adael i'r teulu wybod beth sy'n digwydd ar bob cam o'r broses. Dylai'r teulu gael galwadau ffôn rheolaidd gan un ai'r gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol sy'n cefnogi'r teulu neu swyddfa'r crwner i adael iddynt wybod sut mae pethau'n datblygu.

- Dylid hysbysu'r teulu'n glir ynglŷn ag enwau a manylion cyswllt y gweithiwyr proffesiynol arweiniol sy'n gyfrifol am yr ymateb cyd-asiantaeth, gan gynnwys y gweithiwr iechyd neu ofal cymdeithasol proffesiynol, ymchwilydd yr heddlu a swyddog y crwner. Os bydd angen trosglwyddo cyfrifoldebau rhwng gweithwyr proffesiynol, dylid hysbysu'r teulu ynglŷn â hyn a'u cyflwyno i unrhyw weithwyr proffesiynol newydd sy'n ymwneud.

- Rhaid rhoi manylion clir i'r teulu ynglŷn â phwy i gysylltu â hwy, o fewn oriau gwaith a thu hwnt i oriau gwaith, pe bai ganddynt unrhyw gwestiynau neu bryderon.

- O dan Ddeddf yr Heddlu a Thystiolaeth Droseddol 1984, adran 29, os oes gan ymchwilydd yr heddlu unrhyw amheuon y gall y farwolaeth fod yn drosedd, mae'r gyfraith yn mynnu fod hawliau'r sawl sydd dan amheuaeth yn cael eu hamddiffyn a gallai rhai cyfyngiadau cyfreithiol fod yn berthnasol o ran sut y gellir siarad â hwy, a gan bwy. Mae hyn yn arbennig o berthnasol pan fo'r sawl y gallai fod o dan amheuaeth yn aelod o'r teulu.

## 6.2 Lles Staff:

Bydd marwolaethau oedolyn mewn perygl yn cael amrywiol raddau o effaith ar staff. Dylai Rheolwyr Atebol sy'n gyfrifol am holl staff sy'n rhan o'r Ymateb Protocol

i Farwolaethau Annisgwyl Oedolion mewn Perygl sicrhau y cynhelir ôl-drafodaeth, o ran lles, cyn i'r aelod o staff orffen gweithio a rhoi cefnogaeth briodol fel bo angen.

Gweler: Protocol Gogledd Cymru ar gyfer Cefnogi Gweithwyr wedi'u heffeithio gan Ddigwyddiadau Tyngedfennol

## 7.0 Atodiadau:

## 7.1 Dogfennaeth Berthnasol:

**Templed rhannu gwybodaeth:**

Appendix J – Initial Information Sharing a

**Proses Haulfryn Care Ltd**

C7%20Appendix%20 2%20%20Sudden%20

## 7.2 Gwasanaethau / Llinellau Cymorth / Gwybodaeth Profedigaeth

| | |
|---|---|
| Dewis Wales | https://www.dewis.cymru/bereavement |
| Cruse UK | https://www.cruse.org.uk |
| Diverse Cymru | https://diversecymru.org.uk/wales-bereavement - information-and-support-service |
| At a Loss | https://www.ataloss.org |
| The Good Grief Trust | https://www.thegoodgrieftrust.org |

## 7.3 Gwybodaeth am Ddiogelu ac Adolygiadau Diogelu:

Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru:

https://www.bwrdddiogelugogleddcymru.cymru/

Adolygiad Diogelu Unedig Sengl (SUSR):

https://www.llyw.cymru/adolygiad-diogelu-unedig-unigol-arweiniad

## 7.4 Gwybodaeth am y Crwner:

Pan hysbysir y Crwner ynglŷn â marwolaeth:

https://www.gov.uk/after-a-death/when-a-death-is-reported-to-a-coroner

Llysoedd a Thribiwnlysoedd y Crwner:

https://www.judiciary.uk/courts-and-tribunals/coroners-courts/coroners

## 7.5 Siart Lif:

Trosolwg o Brotocol Marwolaeth Oedolyn (PMO)

**AR UNWAITH**

**Marwolaeth annisgwyl oedolyn ble mae meini prawf Protocol Marwolaeth Oedolyn yn cael eu nodi gan asiantaeth**

- Mae'r asiantaeth yn cysylltu â Chanolfan Heddlu Gogledd Cymru ar 101 i wneud atgyfeiriad i gychwyn y protocol marwolaeth oedolyn
- Mae'r ganolfan gyswllt yn cynnal brysbennu cychwynnol i ganfod os yw meini prawf PMO wedi eu bodloni

**Ambiwlans a'r Heddlu i fynd i leoliad y corff**

- Gweithiwr iechyd proffesiynol / clinigydd i gadarnhau marwolaeth
- Ymatebwyr llinell gyntaf yn defnyddio dyfarniad proffesiynol a defnyddio canllawiau PMO. Os ydynt yn amau camdriniaeth neu esgeulustod gan drydydd parti, mae Ditectif Sarsiant (DS) yn mynychu ac yn cynnal asesiad ymchwiliadol cychwynnol.
- Os yw'r Ditectif Sarsiant yn credu y bodlonir meini prawf PMO, bydd Ditectif Sarsiant, Ymchwilwyr Safle Trosedd a Swyddog y Crwner yn mynychu a chynnal archwiliad ar y cyd o'r corff gyda'r ymarferydd meddygol sy'n bresennol.
- Ystyried peryglon diogelu i oedolion a / neu blant eraill a chodi pryder diogelu os oes angen.
- Ymgysylltu â staff / teulu ac egluro'r broses PMO
- Os amheuir dynladdiad, yna mae'r broses dynladdiad yn cymryd blaenoriaeth

**DS yn hysbysu'r DS Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol i drefnu Cyfarfod Cyd-Asiantaeth Cychwynnol**

Y cyfarfod i gael cynrychiolaeth gan bartneriaid statudol h.y.

- Heddlu Gogledd Cymru
- Tîm Diogelu BIPBC
- Gofal Cymdeithasol i Oedolion

AC unrhyw asiantaeth arall trwy wahoddiad fel bo angen

## O FEWN 24 AWR

**Y cyfarfod cyd-asiantaeth i'w gadeirio gan DS Canolfan Ddiogelu Amlasiantaethol**

- Rhannu gwybodaeth gychwynnol, asesiad risg, cynllun gweithredu (gan gynnwys ystyried y perygl i oedolion / plant eraill)
- DS ac ymarferydd / clinigydd iechyd yn cadarnhau bod yr achos yn bodloni PMO
- Cadarnhau asiantaeth arweiniol
- Ystyried ymwneud gan unrhyw asiantaeth berthnasol arall a chynllunio i ofyn am wybodaeth ychwanegol
- Cadarnhau prosesau ymholiadau / ymchwilio eraill
- Ystyried os gellir dangos y meini prawf ar gyfer atgyfeiriad APR

## O FEWN 6 WYTHNOS

**Yr Heddlu**

Ymchwiliad i droseddau posib

**Crwner**

Darparu adroddiad archwiliad post-mortem cychwynnol a therfynol i'r crwner a chyda chytundeb y crwner i'r heddlu

**Unrhyw ymholiad neu broses ymchwilio arall**

Adolygu gwybodaeth iechyd a gofal cymdeithasol

**Camau gweithredu yn dilyn y cyfarfod**

- Asiantaethau i ddilyn eu prosesau mewnol eu hunain i adolygu amgylchiadau'r farwolaeth

**Cyfarfod dilynol i'w drefnu gan yr asiantaeth arweiniol os yw'n briodol**

- Dysgu o'r achos
- Cadarnhau unrhyw gamau rheoli achos pellach
- Argymhellion strategol

***Sylwer:*** ***Mae unrhyw argymhellion a wneir yn y cyfarfod hwn yn gyfrifoldeb i'r asiantaeth berchen i'w trin.***

SWYDDOGOL - SENSITIF

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

# Heddlu Gogledd Cymru

# AYO Marwolaeth Oedolyn mewn Perygl

## Templedi ar gyfer Cyfarfodydd

# Cyfarfod 1

## Cyfarfod Cychwynnol Rhannu Gwybodaeth a Chynllunio

Vs 2 26 07 18

BWRDD Diogelu Gogledd cymru
north wales Safeguarding BOARD
GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
WELSH AMBULANCE SERVICE

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

# CYFARFOD 1: CYFARFOD CYCHWYNNOL RHANNU GWYBODAETH A CHYNLLUNIO

| | |
|---|---|
| **Enw'r Oedolyn mewn Perygl** | |
| **Dyddiad Geni:** | |
| **Dyddiad Marwolaeth:** | |
| **Cyfeiriad:** | |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod:** | |
| **Amser:** | |
| **Lleoliad:** | |
| **Cadeirydd:** | |
| **Y sawl sy'n ysgrifennu'r cofnodion:** | |

- Cyflwyniad gan y Cadeirydd
- Ymddiheuriad:

**Pwrpas y cyfarfod trafod achos**

1. **Rhannu'r holl wybodaeth berthnasol.**
2. **Penderfynu os oes pryderon uniongyrchol Oedolyn mewn Perygl.**



BWRDD Diogelu Gogledd cymru
north wales Safeguarding BOARD
GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
WELSH AMBULANCE SERVICE

3. **I drefnu a chyfeirio cefnogaeth a chwnsela i'r sawl a effeithir.**
4. **Os oes AAR arall - i drafod eu hanghenion.**

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

**Pwrpas y cyfarfod trafod achos, parhad.**

5. **Ystyried a chynllunio ar gyfer unrhyw ddiddordeb gan y cyfryngau.**
6. **Ystyried lles/cefnogaeth y staff sy'n rhan o'r ymateb i'r digwyddiad hwn.**
7. **Ystyried a ddylid ystyried yr achos ar gyfer SUSR.**
8. **Gwneud trefniadau i alw Cyfarfod Trafod Achos pellach o fewn 5 - 28 diwrnod**

**Manylion AAR.**
**Enw**
**Oedran**
**Cyfeiriad**
**Fframwaith Gorchymyn / cyfreithiol**

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

**Manylion aelodau o'r teulu / perthynas agosaf / cysylltiadau**

_____

_____

_____

**<u>Amgylchiadau'r digwyddiad</u>**



BWRDD Diogelu Gogledd cymru
north wales Safeguarding BOARD
GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
WELSH AMBULANCE SERVICE

*Isod, mae sefydliadau/personél sy'n aml yn rhan o'r ymateb acíwt i adroddiad o Farwolaeth Oedolyn yn Annisgwyl. Dylai aelod priodol o'r cyfarfod o bob sefydliad ddweud wrth y cyfarfod fanylion amgylchiadau eu presenoldeb ac unrhyw wybodaeth berthnasol (gan gynnwys amseriadau, staff yn bresennol, amgylchiadau fel y gwelwyd, digwyddiadau yn ôl eraill, ac ati).*

1. Gwasanaeth Ambiwlans

2. Gwasanaeth yr Heddlu

3. Uned Achosion Brys

4. Ymgynghorydd Iechyd

5. Arall

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

**Gwybodaeth gefndir:**

*Dylai aelod priodol o'r cyfarfod o bob un o'r sefydliadau isod amlinellu unrhyw hanes perthnasol o'u gwaith ymchwil o'r cyswllt/gwybodaeth a geir mewn perthynas â'r sawl sy'n ymwneud â'r digwyddiad hwn.*

1. Gwasanaethau Cymdeithasol



BWRDD Diogelu Gogledd cymru
north wales Safeguarding BOARD
GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
WELSH AMBULANCE SERVICE

2. Yr Heddlu

3. Iechyd

4. Addysg / Gwaith

5. Arall



BWRDD Diogelu Gogledd cymru
north wales Safeguarding BOARD
GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
WELSH AMBULANCE SERVICE

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
Gogledd Cymru diogelach
NORTH WALES POLICE
A safer North Wales

**Dyddiad/Amser/Lleoliad Archwiliad Post Mortem:**

Achos Marwolaeth
Canlyniad

**Crynodeb yn erbyn amcanion:**

1. **A yw'r holl wybodaeth wedi cael ei rhannu?**
2. **A oes pryderon AAR uniongyrchol?**
3. **Pa arwyddion / cefnogaeth / cwnsela sydd wedi cael ei gynnig / ei ddarparu?**
4. **A yw oedolion eraill mewn perygl wedi cael eu nodi a'u hanghenion wedi cael eu harchwilio?**
5. **A yw anghenion lles staff wedi cael eu hymdrin yn briodol?**
6. **A ddylid cyfeirio'r achos i Gyfarfod SUSR?**
7. **Diddordeb y cyfryngau?**

**Camau Gweithredu:**

| Rhif. | Cam Gweithredu | Y person sy'n gyfrifol | Amser/dyddiad targed |
|---|---|---|---|
| 1 | | | |
| 2 | | | |
| 3 | | | |
| 4 | | | |
| 5 | | | |

**Dyddiad ac amser y Cyfarfod Trafodaeth Achos (5-28 diwrnod):**



BWRDD Diogelu Gogledd cymru
north wales Safeguarding BOARD
GIG CYMRU NHS WALES
Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr University Health Board
WELSH AMBULANCE SERVICE

## 1.0 Cwmpas

Mae'r ddogfen hon yn disgrifio'r camau y dylid eu cymryd pan fydd unigolyn sy'n byw yn Haulfryn yn marw'n sydyn neu'n annisgwyl.

Os nad oes meddyg teulu wedi bod i weld yr unigolyn yn ystod y tri diwrnod diwethaf, caiff y farwolaeth ei thrin fel un sydyn. Dilynwch y broses isod, ac eto os oes angen unrhyw gyngor, cefnogaeth neu sicrwydd arnoch, mae croeso i chi gysylltu â'r rheolwyr.

## 2.0 Cyfrifoldeb

Bydd y rheolwr yn sicrhau fod uwch staff yn dilyn y canllaw cam wrth gam a nodir isod mewn achos o farwolaeth annisgwyl.

Dylai bob aelod o'r tîm allu defnyddio'r ddogfen hon fel arweiniad ar gyfer beth i'w ddisgwyl yn dilyn marwolaeth annisgwyl, a beth a ddisgwylir ganddyn nhw.

## 3.0 DNACPR (Na cheisier dadebru cardio-anadlol).

Efallai y bydd yr unigolyn wedi penderfynu nad yw'n dymuno cael ei ddadebru. Bydd DNAPCR wedi'i roi mewn lle gan y meddyg teulu os yw'r unigolyn wedi gwneud y penderfyniad hwn. Bydd arwydd cynnil i ddangos pa unigolion sydd wedi gwneud y penderfyniad hwn sef smotyn coch ar ddrws eu hystafell ac ar flaen eu ffolder, ac ar y setiau llaw PCS fel risg i fod yn ymwybodol ohono. Bydd y DNACPR yn cael ei gadw yng Nghynllun Personol pob unigolyn - bydd angen dangos hwn i unrhyw barafeddygon, meddyg teulu neu nyrsys sy'n dod at yr unigolyn mewn argyfwng.

## 3.0 Proses Cam Wrth Gam

Ar ôl darganfod unigolyn yr ydych yn amau sydd wedi marw yn annisgwyl:

- Rhaid tynnu sylw o leiaf un aelod arall o'r tîm. Dylid dilyn hyfforddiant cymorth cyntaf, a dylid cychwyn rhoi CPR, os nad oes DNACPR mewn lle. Dylai'r aelod arall o'r tîm ffonio 999 ar unwaith.
- Ni ddylid symud y corff, ac eithrio mewn amgylchiadau eithriadol. Dim ond rheolwyr ddylai awdurdodi hyn.
- Dylid hysbysu'r teulu cyn gynted ag sy'n bosibl.
- Os oes pryder diogelu, dylid hysbysu'r rheolwyr cyn gynted ag sy'n bosibl. Dylai aelodau'r tîm ddilyn eu hyfforddiant Diogelu, gan gofio codi unrhyw amheuon gyda'u rheolwyr.

- Bydd y parafeddygon yn hysbysu swyddog cyswllt yr heddlu lleol o swyddfa'r crwner, a fydd yn dod i'r cartref i gynorthwyo i dystio'r farwolaeth. Nid oes angen poeni am hyn, yn syml bydd angen iddyn nhw ddeall y diwrnodau a'r oriau diwethaf. Eto, os ydych yn teimlo yr hoffech gael cyngor neu gefnogaeth mae croeso i chi alw'r rheolwyr.
- Pan fydd yr heddlu'n cyrraedd, byddant yn rhoi cyfarwyddyd i ni ynglŷn â beth ddylai ddigwydd a phryd. Dylem gynorthwyo'r heddlu i gasglu unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnyn nhw.
- Ni ddylid taflu unrhyw feddyginiaeth. Bydd angen i'r meddyg teulu, parafeddygon neu'r heddlu weld y siart MAR, cael trosolwg o'r diwrnodau diwethaf ac mae'n bosibl y byddant yn holi am ddiet yr unigolyn. Efallai y gofynnir i chi lofnodi'r datganiad a baratowyd, a dylech sicrhau fod yr holl fanylion yn gywir. Mae llofnodi datganiad yn ymarfer safonol er mwyn cadarnhau'r wybodaeth a gasglwyd. Ysgrifennwch eich datganiad eich hun i'w roi i'r rheolwyr, yn ailadrodd y manylion a roddwyd i'r heddlu. Pan roddir copïau dyblyg o gynlluniau gofal etc. i'r heddlu, gofalwch fod copi yn cael ei wneud ar gyfer y rheolwyr hefyd.
- Bydd swyddog yr heddlu'n trefnu bod y corff yn cael ei gasglu gan yr ymgymerwr.
- Gofalwch fod dyddiad ac amser y farwolaeth yn cael eu cofnodi ar y cynllun personol a'r llyfr trosglwyddo.
- Gofalwch fod yr ystafell yn lân ac yn daclus, bydd staff domestig yn glanhau'n drylwyr y diwrnod canlynol, oni bai fod angen gwneud hyn yn gynt.
- Bydd rheolwyr yn trefnu i gwblhau eu hysbysiadau ar y diwrnod gwaith nesaf.
- Bydd 'Archwiliad ôl farwolaeth' yn cael ei gwblhau ar y diwrnod gwaith nesaf.

Os oes angen cyngor gan reolwyr ar unrhyw adeg, cofiwch gysylltu unrhyw bryd.